**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru

8 Rhagfyr 2022

Annwyl Gillian

Llawer o ddiolch i chi a Vicky am ddod i'n cyfarfod ar 30 Tachwedd i drafod materion sy'n wynebu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr Aelodau'n ystyried y drafodaeth yn ddiddorol ac yn addysgiadol.

Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch gytuno i ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Y broses a ddilynir gan awdurdodau lleol ar ôl derbyn adroddiadau gofal AGC am gartrefi plant, ac a ydych yn cael unrhyw adborth ynghylch camau a gymerir o ganlyniad i'ch adroddiadau.
- Linc i'r offeryn data a ddefnyddir i fonitro'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.
- Manylion y gwaith a gaiff ei wneud i wella arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sector gofal cymdeithasol.

Nodwyd hefyd bod cynnydd wedi bod mewn atgyfeiriadau diogelu oedolion. A allech chi roi rhagor o wybodaeth i ni am natur yr atgyfeiriadau hyn, a beth, yn arbennig, yw'r materion diogelu penodol.

Byddwn yn ystyried ein blaenraglen waith yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a byddai'n ddefnyddiol felly derbyn eich ymateb erbyn 27 Ionawr 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

cc Jayne Bryant, Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg